OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 389

# Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020

## RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016,

ystyr "Rheoliadau 2017" ("*the 2017 Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017(**1**),

ystyr "y Rheoliadau Cofrestru" ("*the Registration Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017(**2**),

ystyr "y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig" ("*the Regulated Services Regulations*") yw—

(a) Rheoliadau 2017,

(b) Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**3**),

(c) Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**4**),

(d) Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**5**),

(e) Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(**6**).

(**1**) O.S. 2017/1264 (Cy. 295) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/757 (Cy. 142).
(**2**) O.S. 2017/1098 (Cy. 278) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) O.S. 2019/163 (Cy. 40).
(**4**) O.S. 2019/165 (Cy. 41) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2019/169 (Cy. 42).
(**6**) O.S. 2019/762 (Cy. 145).